

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Ionawr 27^{ain}, 2021 am 8.00 yh

Presennol

Cynghorwyr	R. A Davies	Mrs J. E. Collins	Mrs K. Davies	D.L
Ymddiheuriadau	P. H Roberts N. Evans W..D. Evans	C. J Harris E. W. Nicholas	D. Nicholas	

831.

Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a dderbyniwyd oddiwrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio y Cyngor ar Ionawr 27^{ain}, 2021, wedi iddynt gael eu hystyried gan y Cadeirydd a'r Clerc yn ystod toriad y Nadolig.

B3127/PL00919 Amrywio amodau rhif 1, 3, 4, 10, 18 a 23 Caniatâd Cynllunio E/38686 – Tir yn Fferm Tirychen, Heol Dyffryn, SARON
- AMRYWIO AMODAU

Sylwadau: Dim sylwadau

B3128/PL00418 Tri thŷ annedd newydd ym Mhanc y Ffynnon, PENYGROES
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

B3129/PL00962 Tŷ annedd newydd yn 11 Heol Cwmfferws TYCROES
- CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLLOL

Sylwadau: Dim sylwadau

Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a dderbyniwyd oddiwrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio y Cyngor ar Ionawr 27^{ain}, 2021, gan weithredu gydag awdurdod llawn.

B3127/PL00919 Amrywio amodau rhif 1, 3, 4, 10, 18 a 23 Caniatâd Cynllunio E/38686 – Tir yn Fferm Tirychen, Heol Dyffryn, SARON
- AMRYWIO AMODAU

Sylwadau: Dim sylwadau

B3128/PL00418 Tri thŷ annedd newydd ym Mhanc y Ffynnon, PENYGROES
- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

B3129/PL00962 Tŷ annedd newydd yn 11 Heol Cwmfferws, TYCROES
- CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLLOL

Sylwadau: Dim sylwadau

B3130/PL01075 Gollwng amodau 4 a 5 o E/40118 (estyniad un llawr i gefnlun yr adeilad presennol) yn Brooklands, Heol Penygroes, BLAENAU
- GOLLWNG AMODAU

Sylwadau: Dim sylwadau

Ionawr 27^{ain}, 2021

B3131/PL01057 Estyniad arfaethedig i'r adeilad diwydiannol presennol er mwyn ei ddefnyddio at ddiben storio yn fewnol, ac yn allanol o dan do, yn Uned C2 Stâd Ddiwydiannol Capel Hendre
CAPEL HENDRE

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau

PL3132/PL01137 Adeiladu pwll nofio un llawr ym Mwthyn y Cwm, Heol Cwmfferws, TYCROES

- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

Sylwadau: Dim sylwadau

832.

Cais cyn-ymgeisio – Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Rhydaman

Derbyniwyd llythyr oddiwrth ARUP, yn gweithio ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, i hysbysu'r Aelodau bod cais cynllunio llawn i'w gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin i adeiladu cynllun rheoli perygl llifogydd er mwyn lleihau'r risg o lifogydd o'r afonydd Lluchwr, Lash a Marlais. Byddai Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Rhydaman yn cynnwys:

Adeiladu 9 amddiffynfa rhag llifogydd (muriâu llifogydd concrit a byndiau pridd) ar hyd lannau'r afon Lluchwr, gwaith plannu tirwedd yn y mannau gwyrdd agored sydd eisoes yn bodoli, a gwaith cysylltiedig, yn cynnwys ysgolion pysgod a gwelliannau i ddulliau mesur yng nghored Tir y Dail a gwyrwr llif wedi'i osod yn sianel yr afon ger yr A483 ym mhont Bonllwyn.

Yn y cyfnod cyn-ymgeisio hwn bydd cyfle i gynnig sylwadau ynghylch y datblygiad arfaethedig hwn cyn Chwefror 9^{fed}, 2021.

Adroddwyd hyn er gwybodaeth yn unig.

833.

Cais cyn-ymgeisio – tir ym Maespiode, Llandybïe

Derbyniwyd llythyr oddiwrth gwmni JCR Planning Ltd., Cross Hands, yn hysbysu'r Aelodau eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd i gyflwyno cais cyn-ymgeisio am ddatblygiad preswyl arfaethedig o 40 tŷ annedd un-llawr, gan gynnwys gwaith tirlunio a manylion cael mynediad ar dir ym Maespiode, Llandybïe.

Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y datblygiad at gwmni JCR Planning Ltd erbyn Chwefror 15^{fed}, 2021, a bydd rhain yn cael eu cynnwys mewn cais cynllunio ffurfiol a gyflwynir i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Adroddwyd hyn er gwybodaeth yn unig.

834.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.20 yh.

Cadeirydd